

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 11eg o Fawrth 2021

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 11eg o Chwefror 2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
 - Cyfarfod IBC 24ain o Chwefror 2021
 - i. Mantolen ariannol
 - ii. Ceisiadau Nawdd
 - iii. Ymholiad Cysgodfan Bws Nant-y-Mownt/Adeiladu rhan o wal y fynwent newydd
 - iv. Traelia Cynghorwyr
 - BDO
7. Cynllunio
 - Cais Cynllunio C21/0212/25/LL newid defnydd Plas Tirion Pentir yn ol yn dy C21/0164/25/AC Glascoed Cyttir Lane newid amod 2 o C20/0372/25/LL C21/0097/25/LL Llys Y Fedwen Ffordd Gelli Morgan, LL57 4BL Ymestyn parcio i 15 car
8. Materion y Clerc
 - Gohebiaeth cadarnhad gan Yr Urdd - Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri – Goriad – Radio Ysbyty Gwynedd ag Ambiwylans Awyr iddynt dderbyn nawdd
 - Talu Traelia ag os yn bosib eu cyflwyno i'r banc erbyn diwedd Mawrth
 - PWLB £1,102.75 22/03/21
 - Tal trydan y Diffibs £2160.00 h.y £1800 + TAW
 - Yswiriant Angen adnewyddu yn Mehefin – Cytundeb 3 blynedd BHIB ar ben
 - Septic Tanc
 - Gamlins
9. Materion y Cynghorwyr
 - Cyng T A Willams - Trigolion Treborth wedi cael eu bygwth wrth gerdded heibio yr hen ysgol yn Treborth
 - Cyng L A James Canolfan Penrhos
 - Cyng E Jones Biniau Baw Cwn ychwanegol yn Treborth
 - Cyng M Baines Twrw traffig ar yr A55

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 11eg o Chwefror 2021

1. Presennol: Cyngorwyr

M. Lynch; L A James; J. Griffiths; E. Jones; M. Baines; J. Pierce; D. W. Jones; J Lewis; D. Jones-Morris; B. Jones a'r Clerc E Jones

2. Ymddiheuriadau:

Cyngorwyr H Griffiths; T A Williams;;

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng D W Jones wnaeth hefyd offrymu g weddi cyn croesawu pawb oedd bresennol.

3. Datgan buddiant

Esbonwyd y broses ynglyn a datgan buddiant yn rhithiol.

Datgan ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi ag i'r Cyngorydd wedyn anfon ffurflen wedi ei llofnodi

Ar lafar datgelodd Cyng M Baines a'r Cyng M Lynch fuddiant gyda'r Papur Bro Goriad oedd wedi gwneud cais i'r Cyngor am Nawdd. Ymhellach datgelodd Cyng M Lynch fuddiant hefyd yn sefydliad Yr Urdd oedd hefyd wedi gwneud cais am nawdd

Yn yr un modd datgelodd Cyng D Jones-Morris fuddiant hefo'r Ambwilans Awyr oedd hefyd wedi anfon cais am nawdd.

Ni fu i'r tri gymeryd rhan yn y trafod ddaeth yn dilyn argymhellion yr Is-Bwyllgor Cyllid

4. Derbyn cofnodion 14eg o Ionawr 2021 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir

Cyng J Pierce yn cynnig a Cyng L A James yn eilio

5. Materion yn codi o'r cofnodion

a. Llwybr Glan Menai – Dim yn broblemus

b. Logo Newydd – Cyng L A James wedi cyfarfod a Beth Horrocks i drafod ond amser Beth yn brin ar hyn o bryd felly wedi **cytuno i ohirio tan Mis Mawrth** gan nad oes brys mawr i gwblhau

Y syniad fydd cael dewis allan o fath o set fydd Beth wedi ei ddylunio ar ein cyfar yn ystyried holl elfennau o'r Cyngor. Byddai'r pris rhwng £200 a £250.

Argymhell hefyd i ddal ar gomisiynu Fidio hyd nes bydd y logo yn ei le

c. Septic Tanc Glasinfryn – Cwmni A Thomas wedi bod ar y safle ag wedi cario allan syrfe camera ag mewn cyswllt a Bill Font. Ymddengys mae lawr canol y trac mae'r bibell gyhoeddus yn mynd a ddim tan y maes parcio

6. Materion Ariannol

a. Rhanwyd cofnodion IBC 27ain o Ionawr a'r y fantolen ariannol yn electronig ag yn rhithiol ar y sgrin 'Roedd yn dangos ein sefyllfa ariannol bresennol oedd £33,995.17 yn y cyfrif Cyfredol a £25,037.19 yn y cyfrif Cadw

b. Ceisiadau Nawdd – Argymhell i'r Cyngor Llawn rhoi nawdd o £300.00 i Goriad Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri, Eisteddfod Yr Urdd a Radio Ysbyty Gwynedd a thrafod yn y Cyngor Llawn nawdd i Ambiwylans Awyr Plant.

Cymeradwywyd yr Argymhelliadau a chytuno rhoi yr un swm £300.00 i'r Ambiwylans Awyr Plant hefyd

c. Llnau Cysgodfannau Bws - Wedi derbyn amcanbris £150 yr un i lanhau cysgodfan Cytunwyd fod y pris yn dderbyniol ag i'r Cwmni ymgymeryd a'r gwaith yn flynyddol ag os yn bosib eu glanhau i gyd cyn diwedd Mawrth.

Cytunwyd hefyd roi caniatad 'llnau fel bo angen' tae achos yn codi.

d. Ganolfan Newydd - Cynfyngiadau newydd wedi golygu bod y gwaith yn rhedeg ychydig ar ol amser, ag yn sgil hynny ein ymweliad a'r safle wedi ei ohirio

Cyng L A James wedi bod mewn sawl trafodaeth yn ystod y mis ag yn gobeithio rwan trefnu ail-ymweliad safle cyn y Pasg
BT wedi ail-gysylltu llinell i'r Ganolfan Bresennol ar gost Wynne's a bydd hynny yn golygu bydd yn haws trosglwyddo'r llinell i'r Ganolfan Newydd unwaith bydd honno yn barod
Angen holi'r swyddogion am amserlen
Cyng L A James am holi
Diolchwyd i'r Cyng James am ei ymrwymiad i gadw mewn cyswllt hefo swyddogion Gwynedd ar ein rhan
e. Archwilwyr allannol Dim i'w adrodd ymhellach

7. Materion y Clerc

- Gohebiaeth Julie James Gweinidog Tai Llyw Cymru Y llythyr electronig wedi ei basio ymlaen gan y Clerc
- Septic Tanc Glasinfryn Nodwyd o dan materion yn codi
- Canolfan Penrhos Nodwyd o dan materion ariannol

8. Materion y Cynghorwyr

- Cyng E Jones Adrodd fod coed leylandii wedi eu plannu ar y llwybr cyhoeddus yn arwain o safle adeiladu McLennan i gyfeiriad Stád Redrow ond adran tramwy yn ymdrin a'r mater 'Roedd hi a'r Cyng M Baines wedi cyfarfod a Swyddog Tramwy Cyngor Gwynedd a tra fod rhywfaint o darnacio wedi cychwyn ar ffyrdd Stad Redrow mae craciau drwg ar y llwybr Goetre Uchaf sy'n golygu **na fydd Cyngor Gwynedd yn ei fabwysiadu hyd nes y bydd mewn cyflwr safonol**
- Llwybr heibio Ysgol Glan Menai (Treborth) Adroddwyd fod y swyddog tramwy wedi argymhell fod y cais i gofrestru yn dod drwy Cyngor Cymuned Pentir yn hytrach nag unigolyn/ion Cyng E Jones a Cyng M Baines am gychwyn hel tystiolaeth/enwau.
Mi allai hyn arwain at archwyliad cyhoeddus
- Stad Redrow Adroddodd Cyng M Baines iddi fod wedi bod mewn cyswllt a thrafodaethau hefo Hywel Williams AS a Sian Gwenllian ASC i holi am amserlen dod a safon y ffyrdd i fyny fel y gall Cyngor Gwynedd eu mabwysiadu. **Mi allai hynny gymeryd hyd at flwyddyn i'w gwblhau**
- Cyng J Griffiths yn adrodd fod dwr wedi bod ynrhedeg i'r ffordd o goedwig Ty Coch ag yn beryg pan fo yn rhewi – Mi oedd y Clerc wedi cysylltu ag **yn wir Cyngor Gwynedd wrthi yn archwilio i'r problem yn ystod y dydd heddiw**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20